ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Modiwlau cadw dysgwyr yn ddiogel



## Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 271/2021
Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2021
Yn disodli dogfen ganllawiau: rhif 229/2018

# Modiwlau cadw dysgwyr yn ddiogel

## Trosolwg

Mae'r ddogfen ganllawiau hon yn rhoi cyngor ar sut i ddefnyddio a/neu sut i neilltuo'r modiwlau *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* i aelodau eraill o staff os ydych yn person diogelu dynodedig neu'n bennaeth.

## Camau i'w cymryd

Darllenwch y ddogfen i ddeall sut i neilltuo'r modiwlau *Cadw dysgwyr yn ddiogel* i ymarferwyr eraill, os ydych yn person diogelu dynodedig neu'n bennaeth.

Nodwch, os ydych o'r sector annibynnol, gallwch weld pob tudalen a chwblhau'r holl weithgareddau o fewn y modiwl (gan gynnwys y rhai o'r aseiniad) drwy glicio ar y ddolen 'Playlists' yn yr adnodd. Fodd bynnag, ni chaiff eich sgoriau eu cofnodi.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:


Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: keepinglearnerssafe@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru


## Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel


## Dogfennau cysylltiedig

*Cadw dysgwyr yn ddiogel – Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002* (2021)

© Hawlfraint y Goron 2021 WG42664 ISBN digidol 978 1 80195 307 8

# Cynnwys

**Cyflwyniad** **2**
**Defnyddio'r modiwlau** **2**
**Mynediad i ysgolion annibynnol a staff nad ydynt yn berson diogelu dynodedig nac yn benaethiaid** **10**




## Cyflwyniad

Dylai pob lleoliad addysg gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

Mae'r canllawiau statudol *Cadw dysgwyr yn ddiogel Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002 (2020)* (Canllawiau *Cadw dysgwyr yn ddiogel*) wedi gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 i ddiogelu plant a phobl ifanc mewn addysg. Drwy ddefnyddio'r ddogfen ganllawiau hon bydd modd i ysgolion gyflawni eu dyletswyddau diogelu.

**Nid** yw'r modiwlau **Cadw dysgwyr yn ddiogel** yn cymryd lle'r canllawiau statudol. Fodd bynnag, byddant yn gymorth i staff ddeall eu dyletswyddau diogelu.

## Defnyddio'r modiwlau


### Neilltuo modiwlau

Os ydych chi'n person diogelu dynodedig a/neu'n bennaeth gallwch neilltuo'r modiwlau hyn i aelodau eraill o'r staff. Mae'r ddogfen ganllawiau hon yn rhoi cyngor ichi ynghylch sut i ddefnyddio a/neu neilltuo'r modiwlau hyn.

Nod y modiwlau yw sicrhau bod yr holl aelodau perthnasol o'r staff wedi deall eu cyfrifoldebau, fel y'i nodir yn y canllawiau *Cadw dysgwyr yn ddiogel*.


## Creu aseiniad

Cliciwch **ar yr adran ar gyfer aseiniadau** yn y pecyn adnoddau i agor y sgrin i greu aseiniad.




O'r fan hon byddwch yn gallu neilltuo neu ail neilltuo'r modiwl i staff yn eich ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth wedi'i chynnwys yn barod, gan gynnwys enw'r aseiniad, y ddelwedd ar gyfer y clawr a'r cynnwys.

Mae'r dudalen **Creu aseiniad** yn rhoi nodiadau ynghylch yr wybodaeth ofynnol sydd angen ei nodi.




### Rhannu aseiniadau

Bydd angen i chi ychwanegu dau ddarn pwysig o wybodaeth cyn rhannu'r aseiniad.

### Y cynllun marcio

Dyma osodiad dewisol i ddarparu sgoriau ar ôl i modiwl gael ei gwblhau.





Mae dau gynllun marcio ar gael ar Hwb yn barod a fydd yn rhoi'r cyfranogwyr yn y terfynau graddau canlynol.

| Cynllun marcio enghreifftiol 1 | Cynllun marcio enghreifftiol 2 |
|---|---|
| **A=** 100%–80%<br>**B=** 79%–70%<br>**C=** 69%–60%<br>**D=** 59%–50%<br>**E=** 49%–40%<br>**U=** 39%–0% | **A*=** 100%–90%<br>**A**= 89%–80%<br>**B**= 79%–70%<br>**C**= 69%–60%<br>**D**= 59%–50%<br>**E**= 49%–40%<br>**F**= 39%–30%<br>**G**= 29%–20%<br>**U**= 19%–0% |


Gallwch hefyd ddewis yr opsiwn i beidio â chael sgôr ar ddiwedd y modiwl drwy ddewis **dim cynllun**.

Fel arall, gellir ychwanegu cynllun marcio newydd at yr aseiniad i gyd-fynd â'r terfynau graddau yn eich ysgol drwy ddewis **Ychwanegu cynllun marcio newydd** – a fydd yn agor y cyfleuster **Golygydd cynllun marcio**:




## URL yr aseiniad

Rhaid bod URL unigryw gan yr aseiniad. Gallwch wneud hyn drwy ychwanegu, er enghraifft, enw eich sefydliad ar ddiwedd yr URL a roddwyd.



Dewisol


## Amserlen

Gallwch benderfynu pryd y mae'r Aseiniad ar gael i ddechrau arno a phryd na fydd ar gael.





## Terfyn amser

Gallwch osod terfyn amser. Gallwch drefnu dyddiad cychwyn, a fydd yn pennu pryd y mae'r Aseiniad ar gael i ddechrau arno a gallwch ddewis dyddiad cwblhau hefyd.





## Neilltuo i grwpiau

Gallwch rannu eich Aseiniad i Ddosbarth Hwb neu Rwydwaith Hwb rydych yn berchennog neu'n rheolwr arno. Cliciwch ar Dewiswch o'ch grwpiau.



Mae’ch aseiniad bellach yn barod i gael ei rannu: cliciwch ar y botwm **Arbed a rhannu aseiniad** ar waelod y dudalen. Gellir rhannu’r aseiniad gyda hyd at 2000 o bobl – a hynny mewn sawl ffordd:



Cliciwch ar y botwm **copïo dolen** i gopïo URL yr aseiniad. Gall y ddolen gael ei rhannu wedyn ymysg aelodau o'r staff drwy e-bost, drwy wefan yr ysgol neu drwy unrhyw gyfrwng lle gall eich staff ddod o hyd iddo. I gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud hynny edrychwch ar y canllawiau [Rhestrau Chwarae a Aseiniadau cymorth a chefnogaeth.]()

Cliciwch ar y botwm **Cyflwyno dolen i'r Aseiniad ar y bwrdd gwyn** ac argraffwch y cod QR fydd yn cael ei gynhyrchu'n awtomatig. Gall hwn gael ei roi ar yr hysbysfwrdd yn ystafell y staff neu mewn unrhyw fan arall lle gall staff ei weld. Bydd hyn hefyd yn galluogi staff sydd wedi mewngofnodi i weld a chwblhau'r Aseiniad o lechen neu ffôn clyfar.




## Llyfr marcio

Mae'r llyfr marcio'n caniatáu i berson diogelu dynodedig a phenaethiaid fonitro cynnydd a chyrhaeddiad pawb sy'n cymryd rhan yn yr aseiniad. Gallwch weld y data hyn ar unrhyw adeg drwy glicio ar dudalen eich proffil ac yna'r tab **Aseiniadau**. Bydd yr aseiniadau a rannwyd gennych wedi'u rhestru yno. Cliciwch ar y botwm ar gyfer y llyfr marcio i weld y llyfr marcio.



## Mynediad i ysgolion annibynnol a staff nad ydynt yn berson diogelu dynodedig nac yn benaethiaid

### Ysgolion Annibynnol

Mae'r modiwlau ar gael i'r holl staff o fewn Ysgolion Annibynnol eu defnyddio ar unrhyw adeg.  Mae'r **Playlists** yn eich galluogi i weld yr holl gynnwys a chwblhau pob aseiniad, fodd bynnag, ni fydd eich sgôr yn cael ei chofnodi.

### Aelodau o’r staff nad ydynt yn berson diogelu dynodedig nac yn benaethiaid

Mae’r modiwlau ar gael hefyd i’r holl staff o fewn lleoliad addysgol eu defnyddio ar unrhyw adeg. Os nad ydych yn berson diogelu dynodedig nac yn bennaeth, cliciwch ar y ddolen **Playlists** yn y pecyn adnoddau. Bydd hyn yn caniatáu i chi weld pob tudalen a chwblhau pob aseiniad, fodd bynnag, ni fydd eich sgôr yn cael ei chofnodi.

